# Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

**2011 mccc 2**

## 10 Gorchmynion E+W

(1) Mae unrhyw orchymyn o dan y Mesur hwn i'w wneud drwy offeryn statudol.

(2) Rhaid i offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 6 neu 7 beidio â chael ei wneud oni bai bod drafft o'r offeryn wedi cael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad.

(3) Ni chaniateir i unrhyw drafodion gael eu cynnal yn y Cynulliad er mwyn cymeradwyo drafft offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 6 neu 7 cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod fel y'i diffinnir yn is-adran (6).

(4) Rhaid i ddrafft o offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 8 gael ei osod gerbron y Cynulliad cyn i'r offeryn gael ei wneud a rhaid peidio â gwneud yr offeryn cyn diwedd y cyfnod o 40 niwrnod fel y'i diffinnir yn is-adran (6).

(5) Nid yw adran 6(1) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 yn gymwys i ddrafft o offeryn sy'n cynnwys gorchymyn o dan adran 8.

(6) At ddibenion is-adrannau (3) a (4), mae'r cyfnod o 40 niwrnod yn dechrau ar y diwrnod pryd y gosodir yr offeryn drafft gerbron y Cynulliad, heb gymryd i ystyriaeth unrhyw amser pryd y bydd y Cynulliad wedi ei ddiddymu neu ar doriad am fwy na phedwar diwrnod.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 10 mewn grym ar 16.5.2011, gweler **a. 11**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Adran 10.